

# Cylch gorchwyl grŵp llywio Prifysgol Bangor i gefnogi pobl sydd yn byw efo dementia

## **AMODAU GORCHWYL**

(trafodwyd a chytunwyd – 09/05/2019)

### *Rôl y grŵp:*

- Gweithio gyda'n gilydd tuag at sefydlu Prifysgol sy'n cefnogi pobl sydd yn byw efo dementia.
- Cyfarfu'r grŵp am 26/11/18 i ddechrau i rannu syniadau a sefydlu grŵp llywio.

### *Aelodaeth:*

- Bydd Aelodau'r grŵp llywio yn cynnwys myfyrwyr/cynrychiolydd undeb myfyrwyr, staff ac unigolion sy'n byw gyda dementia a'u cefnogwyr.
- Uchafswm aelodaeth y grŵp fydd 20. Bydd hyn yn sicrhau bod pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu.
- Caiff yr aelodaeth ei hadolygu ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol er mwyn sicrhau bod yr holl elfennau craidd yn cael eu cynrychioli.
- Bydd swyddi swyddogol (Cadeirydd a Ysg.) yn cael eu rhoi am gyfnod o 12 mis a'u henwebu ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol.

### *Atebolrwydd:*

- Bydd unigolion a enwir yn y cynllun gweithredu yn arwain ac yn adrodd yn ôl ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfodydd y grŵp llywio fydd yn cwrdd pob chwe mis.

### *Adolygiad:*

- Bydd y cylch gorchwyl a'r cynnydd o ran y pwyntiau gweithredu yn cael eu hadolygu yn y ddau gyfarfod.

### *Ffyrdd o weithio:*

- Bydd y grŵp yn cyfarfod fel grŵp llywio, ddwywaith y flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor.
- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan y Pwyllgor (Cadeirydd a SEC).
- Bydd dogfennau'r cyfarfod yn ddwyieithog ac yn cael eu hanfon at Aelodau drwy e-bost neu yn y post cyn y cyfarfod.
- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp yn cael ei darparu gan Ysgol Gwyddorau Iechyd.
- Gellir gwahodd rhai nad ydynt yn aelodau i ymuno â chyfarfodydd y grŵp llywio i rannu gwybodaeth ac adeiladu partneriaethau.

### *Rhannu gwybodaeth:*

- Caiff tudalen ar y wefan sy'n canolbwyntio ar y grŵp Prifysgol cyfeillgar i ddementia ei datblygu a'i chynnal ar wefan y Brifysgol. Bydd y wefan yn cynnwys y pwyntiau gweithredu a'r manylion cyswllt ac aelodaeth y grŵp llywio.
- Bydd manylion cyswllt cyfrinachol Aelodau'r grŵp llywio a hyrwyddwyr dementia yn y Brifysgol yn cael eu cadw'n ddiogel gyda mynediad cyfyngedig i Ysgrifenyddiaeth y pwyllgor.
- Bydd unrhyw ddelweddau ar y wefan ond yn cael eu dangos ar ôl i ganiatâd gael ei roi gan yr unigolyn a bydd unrhyw ddelweddau yn cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol.

### **\* Dogfennau fyd dyn cael eu rhannu 1 wythnos cyn y cyfarfod cyffredinol blynyddol y grŵp llywio:**

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Agenda
- Cynllun gweithredu ar gyfer adolygu
- Enwebiadau ar gyfer Swyddogion y pwyllgor
- Gohebiaeth